# TV Licensing Adolygiad Blynyddol 2012/13



Mae'n hawdd iawn talu I fwynhau'r teledu

# 2012
# Blwyddyn Teledu Byw

Rydyn ni'n dal i fwynhau dod at ein gilydd i wylio'r digwyddiadau byw mawr ar y teledu fel maent yn digwydd, ac yn ystod 2012 fe gadwodd sawl digwyddiad mawr ni o flaen y sgrin wrth ein miloedd.



# 2012
# Blwyddyn Teledu Byw



Ddydd Nadolig yn unig, gwyliodd 1.2m o bobl raglenni ar ddyfeisiadau tabled drwy iPlayer. Nawr mae mwy na 30 y cant o raglenni sy'n cael eu gwylio ar iPlayer yn cael eu gwylio ar ddyfeisiadau symudol a thabled.[2]

**Rydyn ni'n genedl sy'n hoff iawn o wylio'r teledu. Boed yn mwynhau ein hoff operâu sebon ar y soffa gyda'r teulu neu'n cadw llygad ar sgôr gêm wrth fynd a dod, mae'r teledu a'r mwynhad rydym yn ei rannu wrth ei wylio'n rhan enfawr o'n bywydau bob dydd.**

Mae'r cynnydd mewn gwylio ar-lein a'r llu o dechnolegau gwylio sydd ar gael yn golygu nad yw'r ffordd rydym yn gwylio'r teledu wedi'i gyfyngu bellach i'r set deledu draddodiadol.

Eleni, mae dyfeisiadau tabled wedi dod yn flaenllaw fel y ddyfais wylio symudol o ddewis gan lawer o bobl, ac mae canran y cartrefi sydd â dyfais dabled wedi dyblu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[1]

Hefyd, mae'r chwyldro digidol yn newid y ffordd rydym yn gwylio ein hoff raglenni.

Y dyddiau hyn, rydym yr un mor debygol o sgwrsio ar gyfryngau cymdeithasol mewn amser real am ein hoff raglenni ag yr ydym o siarad amdanynt uwch ben y peiriant dŵr y diwrnod canlynol.

Mae chwarter holl oedolion y DU yn mynd ar-lein yn rheolaidd i ryngweithio gyda'r arlwy teledu maent yn ei wylio neu i gyfathrebu amdano.

Mae'n gysur nad yw rhai pethau'n newid, er bod rhai arferion teledu'n newid fel ymateb i'n ffordd brysur o fyw a thechnolegau newydd. Mae amcangyfrifon y diwydiant yn dangos bod gan fwyafrif helaeth y cartrefi (96 y cant) o leiaf un teledu.[3]

Er gwaetha'r ystod enfawr o ddyfeisiadau sydd ar gael i ni yn awr, rydym yn dal i wylio mwyafrif arlwy'r teledu ar set deledu. Mae'r rhan fwyaf o'n gwylio yn digwydd yn fyw - 89 y cant o'n gwylio cyffredinol yn 2012[4] - gyda gwylio ar alw'n ategu ein deiet arferol o deledu. Mae canran y cartrefi sydd ond yn gwylio gwasanaethau teledu dal i fyny a heb fod angen trwydded yn llai na 2 y cant.[5]

(1 a 4) Adroddiad Marchnad Ofcom Communications 2013 (2) bbc.co.uk
(3) Bwrdd Ymchwil Cynulleidfa'r Darlledwyr (BARB)
(5) Arolwg Sefydliad BARB, C2 2013

# 2012 Blwyddyn Teledu Byw





Rydyn ni'n dal i fwynhau dod at ein gilydd i wylio'r digwyddiadau byw mawr ar y teledu fel maent yn digwydd, ac yn ystod 2012/13, fe gadwodd sawl digwyddiad mawr ni o flaen y sgrin wrth ein miloedd, gan gynnwys:

Seremoni Gloi y Gemau
**Olympaidd 2012** — **24m**

Lloegr v Yr Eidal Pencampwriaethau
**Ewropeaidd UEFA** — **20m**

Rownd Derfynol Fyw
**Strictly Come Dancing** — **13m**

Nifer y gwylwyr ar gyfartaledd

Gallwch ddarllen mwy am dueddiadau gwylio'r teledu yn ein hadroddiad TeleScope 2013, yn www.tvlicensing.co.uk/telescope2013

# 2012
# Blwyddyn Teledu Byw

## Perchen ar wahanol ddyfeisiadau
Cartrefi'r DU

**96%**
**Teledu**
Amcangyfrif BARB 2013


**79%**
**Gliniadur/Cyfrifiadur**
Fel yn C1 2013

**24%**
**Dyfais Dabled**
Fel yn C1 2013

**51%**
**Ffôn Clyfar**
Fel yn C1 2013



# Trwydded i fwynhau



## Mae ein cwsmeriaid yn defnyddio technoleg newydd a ffyrdd newydd o wylio i addasu eu harfer o wylio'r teledu i weddu i'w ffordd o fyw.

# Trwydded i fwynhau



Rydym yn gwrando ar y rhai sy'n talu'r drwydded a bob amser yn ceisio dod o hyd i ragor o ffyrdd o gefnogi cwsmeriaid, waeth pa ddull o dalu a ddefnyddir.

## Yn union fel mae ein cwsmeriaid yn defnyddio technoleg newydd a ffyrdd newydd o wylio i addasu eu harfer o wylio'r teledu i weddu i'w ffordd o fyw, rydym ni'n darparu ffyrdd amrywiol o dalu am drwydded fel bod pawb yn gallu dod o hyd i'r ffordd orau iddynt hwy.

Mae trwydded teledu lliw yn costio £145.50. Rydym yn gwybod nad yw pawb yn gallu talu'r swm yn llawn ymlaen llaw, felly rydym yn cynnig ffyrdd i bobl rannu'r gost.

Mae Debyd Uniongyrchol yn galluogi pobl i dalu'n flynyddol, yn fisol neu'n chwarterol, ac mae pobl yn gallu talu mewn rhandaliadau arian parod yn wythnosol, yn fisol neu bob pythefnos mewn unrhyw un o'r mwy na 25,000 o ganolfannau PayPoint ledled y DU.[1]

Mae'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid (71 y cant[2]) yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol. Rydym yn parhau i ddarparu amrywiaeth o ddulliau eraill o dalu - gan gynnwys talu gyda cherdyn debyd neu gredyd ar-lein neu dros y ffôn, talu'n llawn mewn canolfan PayPoint neu drwy roi siec yn y post.

Rydym yn gwybod na fydd dull o weithredu lle mae disgwyl i un drefn weddu i bawb yn gweithio i'n 25m o gwsmeriaid i gyd, felly rydym yn cyfathrebu gyda'n cwsmeriaid yn wahanol, gan ddibynnu ar y dull o dalu maent yn ei ddefnyddio.

Byddwn yn adnewyddu trwydded y cwsmeriaid sy'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol yn awtomatig bob blwyddyn, cyn belled â'u bod yn talu'n gyson.

(1) Swyddfeydd Post ar Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw
(2) Nid yw hyn yn cynnwys y cwsmeriaid hynny gyda thrwyddedau am ddim dros 75 oed

# Trwydded i fwynhau





Rydym wedi cysylltu ag 14m o'n cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol i roi gwybod iddynt na fyddant yn derbyn trwydded bapur flynyddol o hyn ymlaen os byddant yn parhau i dalu ar amser.

Ar y llaw arall, mae llawer o gwsmeriaid sy'n talu drwy randaliadau arian parod yn hoffi derbyn neges destun i'w hatgoffa bob amser mae taliad yn ddyledus.

"Unwaith eto, mae'n bleser gan Money Advice Scotland gymeradwyo adolygiad blynyddol TV Licensing. Rydym wedi sefydlu perthynas waith ers peth amser gyda'r sefydliad, yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ac mae hyn wedi arwain at fanteision i'r naill ochr a'r llall."

"Mae'n helpu i gadw'r sector cyngor ariannol yn agos at y newidiadau sy'n digwydd yn TV Licensing, ac i'r sector adrodd yn ôl i'r system ar sut mae pethau'n gweithio yn ymarferol."

"Bydd y blynyddoedd nesaf yn rhai anodd i deuluoedd ac mae'n hanfodol bod ganddynt y wybodaeth briodol ac, os ydynt yn cael anhawster, eu bod yn teimlo'n hyderus i allu cysylltu â TV Licensing, sy'n cynnig ystod o ddulliau talu."



**Yvonne MacDermid**
Prif Weithredwr
Money Advice Scotland

# Pwy ydym ni

Mae 'TV Licensing' yn nod masnach gan y BBC ac fe'i defnyddir o dan drwydded gan gwmnïau sydd wedi'u contractio ganddo i weinyddu'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded ac i orfodi'r system trwyddedau teledu.



# Pwy ydym ni






## Ein nod ni yw casglu ffi'r drwydded mor effeithlon â phosib er mwyn darparu cymaint o gyllid ag y bo modd i raglenni a gwasanaethau'r BBC.

Mae'n well gennym bob amser bod pobl yn talu ond, ar ran y mwyafrif gonest, byddwn yn mynd ar ôl y rhai sy'n gwrthod prynu trwydded pan mae angen un.

Rydym yn gweithio'n galed er mwyn dangos yn glir i bobl pryd mae arnynt angen trwydded ac i ddarparu dewis o ffyrdd syml o dalu.

**Ein sefydliadau partner yn 2012/13**
Mae'r sefydliadau arbenigol canlynol yn defnyddio nod masnach 'TV Licensing' o dan arweiniad tîm bychan yn y BBC.

- **Capita Business Services**
  canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid, prosesu taliadau, gwasanaethau ar y we, gorfodi
- **PayPoint**
  ffyrdd o dalu dros y cownter*
- **Proximity London**
  gwasanaethau marchnata ac argraffu
- **UK Mail**
  gwasanaeth post
- **Mediaedge:CIA International**
  gwasanaethau cyfryngau

* Helpu pobl i dalu
Cyrraedd ein cwsmeriaid

# Beth rydym yn ei wneud

- Helpu pobl i dalu
- Cyrraedd ein cwsmeriaid



# Beth rydym yn ei wneud

## Helpu pobl i dalu

**71%**

o Drwyddedau'n cael eu talu drwy Ddebyd Uniongyrchol



### Debyd Uniongyrchol yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o dalu am drwydded ond ceir dulliau eraill niferus o dalu hefyd.

Talwyd am fwy na 71 y cant o'r trwyddedau a roddwyd drwy Ddebyd Uniongyrchol, cynnydd o 70 y cant y llynedd.

Eleni, prynwyd 2.8m o drwyddedau ar ein gwefan, cynnydd o 2.5m y llynedd (cynnydd o 10 y cant).

Roedd y rhain yn cyfrif am fwy na thraean (34.7 y cant ) o'r gwerthiant - heb gynnwys Debyd Uniongyrchol a gafodd ei adnewyddu'n awtomatig a'r trwyddedau dros 75 oed.

Rydym wedi gweld cynnydd bychan yn nifer y cwsmeriaid sy'n dewis talu'n llawn gyda chardiau credyd neu ddebyd ar-lein neu dros y ffôn (9.9 y cant o'r gwerthiant, cynnydd o 9.5 y cant yn 2011/12).

Pobl sy'n talu'r ffi yn llawn ar wefan TV Licensing sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn i raddau helaeth.

Mae mwy a mwy o'n cwsmeriaid yn dewis derbyn eu trwydded drwy e-bost sydd, yn ogystal â chynnig gwasanaeth haws a chyflymach iddynt hwy, yn ein helpu ni i gadw ein costau argraffu a phostio yn isel.

Erbyn hyn, mae 4.2m o gwsmeriaid wedi dewis derbyn eu trwydded drwy e-bost, yn lle aros am iddi gyrraedd drwy eu drws.

Dyma gynnydd o 35 y cant ar y llynedd (3.1m) ac mae'r duedd o gynnydd yn debygol o barhau wrth i gwsmeriaid ddod yn fwy a mwy cyfforddus gyda thrafodion ar-lein.

Mae cwsmeriaid ar gynlluniau talu gydag arian parod yn gallu gwneud taliadau drwy neges destun, ac mae'r cyfleustra ychwanegol mae hyn yn ei gynnig wedi golygu bod y dull hwn o dalu'n parhau i gynyddu yn ei boblogrwydd. Gwnaed mwy na 748,000 o daliadau drwy neges destun, cynnydd o 25 y cant ar y flwyddyn flaenorol.

# Beth rydym yn ei wneud

## Cyrraedd ein cwsmeriaid

15.6m

Ymweliadau â'r we

www.tvlicensing.co.uk/

**Gyda chymaint o gartrefi a busnesau yn y DU yn mwynhau teledu byw, rydym yn defnyddio ystod eang o ffyrdd o roi gwybod i bobl pan mae arnynt angen trwydded deledu a sut gallant dalu amdani.**

Rydym yn defnyddio llythyrau, negeseuon e-bost, ein gwefan, galwadau ffôn, negeseuon testun, hysbysebion. cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a'n tîm o swyddogion ymholiadau i gysylltu â chwsmeriaid.

**Llythyrau**
Mae llythyrau'n parhau'n ffordd effeithiol o gysylltu â'n cwsmeriaid mewn nifer o amgylchiadau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn talu am eu trwydded ar amser, ond os nad ydym yn derbyn ymateb, mae ein llythyrau atgoffa'n gryfach eu neges bob tro er mwyn annog ymateb.

**Gwefan**
Mae ein gwefan yn prysur ddatblygu i fod y lle cyntaf mae ein cwsmeriaid yn mynd iddo pan mae arnynt angen cysylltu â ni neu dalu am drwydded. Gwnaed 15.6m o ymweliadau â'r safle y llynedd, gan 12.9m o gwsmeriaid, cynnydd o 22 y cant.

Gwnaeth ein cwsmeriaid fwy na 5m o drafodion ar y wefan, cynnydd o 18 y cant ar 2011/12. Rydym yn gwella ein gwefan drwy'r adeg, fel ei bod mor gyflym a hawdd â phosib i bobl ei defnyddio.

**E-bost**
Pan mae hynny'n bosib, rydym yn defnyddio e-bost i gysylltu â'n cwsmeriaid, os ydynt wedi rhoi eu caniatâd i ni gysylltu â hwy fel hyn. Mae nifer y bobl sydd wedi dewis derbyn gohebiaeth gan TV Licensing drwy e-bost wedi cynyddu i 6.3m, i fyny o 4.8m y llynedd.

# Beth rydym yn ei wneud
## Cyrraedd ein cwsmeriaid






**Hysbysebu**
Fis Awst 2013, lansiwyd dau lwybr newydd gennym i ddangos pa mor hawdd yw hi i bobl sy'n symud tŷ fynd â'u trwydded gyda hwy a chynlluniau talu wythnosol. Gellir gweld y llwybrau yn www.youtube.com/tvlicensing.


"Mae'n rhan hanfodol o'n rôl ni i ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau eraill fel TV Licensing.

Mae hyn yn ein helpu ni i roi gwybodaeth i bobl sydd ei hangen - er enghraifft, darparu dogfennau am y gwahanol ffyrdd o dalu am drwydded deledu ar gyfer y rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddynt efallai."



**Karen Armitage**
Prif Weithredwr,
Stafford and Rural Homes

# Beth rydym yn ei wneud
## Cyrraedd ein cwsmeriaid



Rydym wedi defnyddio animeiddio i ddod â'r esgusodion rydym wedi'u clywed dros beidio â bod â thrwydded deledu yn fyw. Cewch weld y gyfres yn www.youtube.com/tvlicensing

**Cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol**
Rydym yn gweithio gyda llawer o sefydliadau er mwyn cyfathrebu â grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau incwm isel.

Mae'r partneriaethau hyn yn hanfodol er mwyn ein helpu i dynnu sylw at ostyngiadau ar ffi'r drwydded a'r opsiynau talu mewn cymunedau ledled y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buom yn gweithio gydag 86 o sefydliadau ymbarél cenedlaethol, gan gynnwys RNIB, Cymdeithas yr Ynadon, Cyngor Ar Bopeth ac Age UK.

Buom hefyd yn gweithio gyda 356 o sefydliadau lleol. Gallwch ddarllen beth sydd gan ein sefydliadau partner i'w ddweud am ein gwaith gyda hwy yn yr adroddiad.

Cewch ddarllen mwy am ein rhaglen cysylltiadau cymunedol yn www.tvlicensing.co.uk/community-relations

Rydym hefyd yn cyrraedd ein cwsmeriaid drwy gyfryngau traddodiadol a chymdeithasol gyda negeseuon pwysig am pryd mae angen trwydded a sut mae talu am un. Defnyddiodd un o'n hymgyrchoedd diweddar animeiddio i ddod â'r esgusodion mwyaf annhebygol y mae ein staff wedi'u clywed dros beidio â bod â thrwydded deledu yn fyw.

"Nod Rights 4 Seniors yw sicrhau bod pobl hŷn yng Ngogledd Iwerddon, a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy, yn gwbl ymwybodol o'u holl hawliau."

"Mae'r drwydded am ddim i bobl dros 75 oed, trwydded tymor byr i bobl 74 oed a'r ddarpariaeth ar gyfer preswylwyr llety gofal yn ostyngiadau pwysig."

"Rydym yn gweithio'n agos â thîm cysylltiadau cymunedol TV Licensing i roi gwybod i bobl hŷn am y gostyngiadau hyn drwy gynnwys gwybodaeth ar ein holl lwyfannau digidol, a hefyd drwy helpu i ddosbarthu taflenni gwybodaeth."



**Ciaran Arthurs**
Rheolwr Prosiect
Rights 4 Seniors

# Beth rydym yn ei wneud

## Cyrraedd ein cwsmeriaid

**2.5%**

Gostyngiad mewn cwynion

### Cwynion

Rydym bob amser yn ceisio gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Os ydym yn gwneud camgymeriad, rydym yn ymddiheuro, yn cywiro pethau ac yn canfod beth aeth o'i le fel ein bod yn gallu ei atal rhag digwydd eto. Rydym yn lleihau nifer y cwynion yn gyson. Roeddent 2.5 y cant yn is na'r llynedd, y pedwerydd gostyngiad blynyddol yn olynol.

### Negeseuon testun

Bob mis, fe wnaethom anfon 777,000 o negeseuon testun ar gyfartaledd i atgoffa ein cwsmeriaid sydd ar gynlluniau rhandaliadau arian parod ei bod yn amser talu. Dyma gynnydd o 6.4 y cant o gymharu â'r llynedd.

### Tîm maes


Os yw ein bas data'n dangos nad oes trwydded yn cael ei dal ar gyfer y cyfeiriad, efallai y bydd un o'n swyddogion ymholiadau'n ymweld â'r eiddo i weld a oes angen trwydded. Os gwelir bod rhywun yn gwylio teledu heb drwydded, mae'r swyddogion ymholiadau'n cymryd datganiad ac yna mae ein harbenigwyr cyfreithiol yn ystyried yr achos dros erlyn. Rydym yn rhoi pob cyfle i bobl dalu, a'r dewis olaf un fydd erlyn. Cafodd mwy na 400,000 o bobl eu dal gan TV Licensing ledled y DU yn gwylio teledu heb drwydded yn ystod 2012.

### Canolfan gwasanaethau cwsmeriaid

Rydym wedi gweld nifer y galwadau i'n canolfan gwasanaethau cwsmeriaid yn gostwng yn raddol - cafwyd 3 y cant yn llai o alwadau (6m) na'r llynedd. Y rheswm dros hyn yw am fod ein cwsmeriaid yn defnyddio mwy a mwy ar ein sianelau ar-lein a hunanwasanaeth pan mae arnynt angen cysylltu â ni.


# Ffeithiau a ffigurau 2012/13

- Casglu
- Gwario
- Dulliau talu
- Osgoi



# Ffeithiau a ffigurau 2012/13

## Casglu




| | | |
|---|---|---|
| Costau casglu | £83m | 74.5% |
| Cyfathrebu | £14m | 12.6% |
| Postio | £12.2m | 11% |
| Dibrisiant | £2.1m | 1.9% |
| Arall | £0.1m | 0.1% |
| | £111.4m | 100% |

**Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, casglodd TV Licensing £3.7 biliwn mewn ffioedd trwydded, cynnydd o £6.7m ar y flwyddyn ddiwethaf. Bydd cost y drwydded yn aros yn £145.50 tan 2016.**


Roedd cost casglu'r ffi yn £111m, i lawr o £126m y llynedd. Mae hyn yn cyfateb i 3c ym mhob £1 a gasglwyd, i lawr o 3.4c y llynedd.

Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad yw'r contract casglu newydd a ddaeth i rym fis Gorffennaf 2012 ac a fydd yn arbed amcangyfrif o £220m dros wyth mlynedd.

Ers 1991, mae'r costau, fel cyfran o'r incwm, wedi gostwng fwy na hanner (52 y cant).

# Ffeithiau a ffigurau 2012/13

## Gwario





| | |
|---|---|
| Teledu | 63.4% |
| Radio | 17.2% |
| Ar-lein | 4.5% |
| Casglu | 2.8% |
| Digidol - cynllun helpu a marchnata | 1.5% |
| Arall | 10.6% |

### Mae'r graff hwn yn dangos sut gwariodd y BBC ffi'r drwydded yn 2012/13.

Cewch ragor o wybodaeth am sut mae ffi'r drwydded yn cael ei thalu yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/whoweare/licencefee

# Ffeithiau a ffigurau 2012/13
# Dulliau talu




| | |
|---|---|
| Debyd Uniongyrchol | **71.1%** |
| Cerdyn Credyd/Debyd | **9.9%** |
| Cerdyn Talu | **8%** |
| PayPoint | **5.5%** |
| Siec drwy'r post | **3.3%** |
| Cerdyn Cynilo | **2%** |
| Bancio gartref | **0.2%** |
| Swyddfa'r Post ar Ynysoedd y Sianel | **0.1%** |

## Mae'r graff hwn yn dangos canran y trwyddedau a roddwyd yn ôl sianel talu, heb gynnwys y trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed.

**Debyd Uniongyrchol**
Cwsmeriaid sy'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol.

**Cerdyn Credyd/Debyd**
Cwsmeriaid sy'n talu'r ffi yn llawn gyda cherdyn credyd neu ddebyd, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.

**Cerdyn Talu**
Cwsmeriaid sy'n talu am eu trwydded mewn rhandaliadau arian parod yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol mewn canolfannau PayPoint, ar-lein, dros y ffôn neu drwy neges destun.

**PayPoint**
Cwsmeriaid sy'n talu ffi'r drwydded yn llawn mewn canolfan PayPoint.

**Siec drwy'r post**
Cwsmeriaid sy'n talu'r ffi yn llawn drwy bostio siec.


**Cerdyn Cynilo**
Cwsmeriaid sy'n defnyddio ein cynllun Cerdyn Cynilo i roi cyn lleied â £2 y mis tuag at gost eu trwydded nesaf.

**Bancio gartref**
Cwsmeriaid sy'n talu'r ffi yn llawn drwy eu gwasanaeth bancio ar-lein.

**Swyddfeydd Post ar Ynysoedd y Sianel**
Cwsmeriaid ar Ynysoedd y Sianel neu ar Ynys Manaw sy'n talu eu trwydded yn llawn neu mewn rhandaliadau arian parod yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol mewn Swyddfeydd Post.

# Ffeithiau a ffigurau 2012/13

## Osgoi




| | Incwm a gasglwyd | Cyfradd osgoi† |
|---|---|---|
| 2008/09 | **95.1%** | **4.9%** |
| 2009/10 | **95.1%** | **4.9%** |
| 2010/11 | **94.9%** | **5.1%** |
| 2011/12 | **94.5%** | **5.5%** |
| 2012/13 | **94.5%** | **5.5%** |

### Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pobl yn gwybod pryd mae arnynt angen trwydded deledu a'r ffyrdd o dalu sydd ar gael.

Er bod gan y rhan fwyaf o bobl drwydded briodol, mae nifer bach o bobl yn osgoi talu'n fwriadol.

Ar ran y mwyafrif gonest sy'n talu am eu trwydded, rydym yn gweithredu yn erbyn y bobl sy'n ceisio osgoi'r ffi.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae gennym ddyletswydd i orfodi'r gyfraith ac i gynhyrchu cymaint o gyllid â phosib ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC.

Mae'r gyfradd osgoi wedi parhau'n isel am y pum mlynedd diwethaf, er gwaetha'r pwysau cynyddol ar gyllidebau teuluoedd.

Mae osgoi wedi parhau'n gyson ar yr un lefel fwy neu lai, sef pump y cant, gan olygu bod gan y rhan fwyaf o bobl - tua 19 allan o bob 20 o gartrefi a busnesau - drwydded deledu briodol.

Eleni roedd yr osgoi'n cyfateb i £216m mewn incwm wedi'i golli i'r BBC.

† Mae'r osgoi hanesyddol yn cael ei ailddatgan gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau diweddaraf.

# Pryd mae arnoch angen trwydded

Mae trwydded teledu lliw yn costio

**£145.50**



## Mae'n rhaid i bawb yn y DU sy'n gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu wrth iddynt gael eu dangos ar y teledu fod â thrwydded deledu. Mae hyn yn berthnasol os ydych yn gwylio ar gyfrifiadur, dyfais dabled, ffôn clyfar neu unrhyw offer arall.

Mae'r llywodraeth yn pennu lefel ffi'r drwydded, sydd wedi'i rhewi ar y lefel bresennol, sef £145.50, hyd at 2016. Cost trwydded deledu du a gwyn yw £49.

Mae gan tua 96 y cant o gartrefi deledu ac mae mwy'n gwylio ar ddyfeisiadau eraill fel gliniaduron, dyfeisiadau tabled a ffonau clyfar.

Pennir gostyngiadau gan y llywodraeth ac maent ar gael i bobl sy'n 75 oed neu'n hŷn, yn ddall, gyda nam difrifol ar y golwg a'r rhai sy'n byw mewn llety gofal preswyl cymwys ac sy'n anabl neu dros 60 oed.

Mae rhagor o wybodaeth am pryd mae arnoch angen trwydded ar gael ar ein gwefan yn www.tvlicensing.co.uk/check-if-you-need-one/

1 Bwrdd Ymchwil Cynulleidfa'r Darlledwyr (BARB)

"Rydym yn croesawu ymgyrch TV Licensing i annog mwy o bobl i fanteisio ar y gostyngiadau i bobl ddall a phobl sydd â nam difrifol ar y golwg. Byddem yn annog pawb sy'n gymwys ar gyfer y gostyngiad o 50 y cant i gysylltu â hwy."



**Ceri Jackson**
Cyfarwyddwr
RNIB Cymru

# Llywodraethu a chydymffurfio





## Mae 'TV Licensing' yn nod masnach gan y BBC. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn goruchwylio'r BBC ac yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer casglu ffi'r drwydded yn 'effeithlon, priodol a chyfartal'.

Rheolir y cwmnïau a ddefnyddir i weinyddu'r system trwyddedau teledu gan Dîm Rheoli Trwyddedau Teledu'r BBC. Mae'r tîm yn adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol y BBC. Llywodraethir y BBC gan Ymddiriedolaeth y BBC, sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded ac yn pennu'r strategaeth gyffredinol.

**Rhyddid Gwybodaeth**
Cawsom gyfanswm o 166 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, neu 14 y mis ar gyfartaledd, o gymharu â 110 y llynedd. Gellir gweld y cwestiynau cyffredin sy'n gysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth yn ein gwefan www.tvlicensing.co.uk/about/freedom-of-information-act-foi-AB14/

Defnyddiwyd eithriadau mewn tua thraean o ymatebion, llai na'r llynedd. Defnyddir eithriadau gan amlaf pan fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn amharu ar atal neu ganfod trosedd, neu'n amharu ar fuddiannau masnachol y BBC neu ein partneriaid, neu pan mae'r wybodaeth y gofynnir amdani'n dod o dan y Ddeddf Diogelu Data.

**Amrywiaeth a chydraddoldeb**
Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth TV Licensing ar gyfer 2013/14 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ac mae ar gael ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/diversity/strategy/diversity-action-plans.html

**Diogelu data**
Mae gennym fas data o fwy na 30m o gyfeiriadau yn y DU ac rydym yn ddifrifol iawn ynghylch diogelwch y wybodaeth sydd gennym. Mae gennym bolisïau a mesurau rheoli cadarn yn eu lle i sicrhau bod y wybodaeth yn ddiogel.

# Llywodraethu a chydymffurfio

## Deddfwriaeth

Mae nifer o ddeddfau'n berthnasol i gasglu ffi'r drwydded. Maent yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedau Teledu) 2004** (fel y'u diwygiwyd) | Yn pennu ffi'r drwydded ac yn disgrifio pam mae arnoch angen trwydded deledu. |
| **Deddf Cyfathrebiadau 2003** | Yn galluogi'r BBC i ddyfarnu, canslo neu addasu trwyddedau teledu. Yn ei gwneud yn drosedd gyfreithiol i beidio â chael trwydded deledu pan mae angen un. |
| **Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000** | Yn cynnwys y defnydd cyfreithlon o offer goruchwylio i ganfod defnydd heb drwydded o dderbynyddion teledu. |

**Sut rydym yn gweithredu'r deddfau hyn**
Mae gennym bolisïau yn eu lle ar gyfer dehongli'r ddeddfwriaeth hon at ddefnydd ymarferol.

Mae ein hymgynghorydd polisi'n datblygu'r polisïau, gyda chyfreithwyr arbenigol yn ystyried a ydynt yn gywir, yn gyfreithiol, yn deg i'r cwsmer ac yn briodol a chyfartal.

Mae llawer o'n polisïau ar gael yn www.tvlicensing.co.uk/about/foi-policies-AB17/

# Cysylltu â ni

**Ymholiadau cyffredinol**
0300 790 6131

**Swyddfa ymgyrchoedd**
020 8752 6537

## Os oes gennych chi unrhyw farn am yr Adolygiad Blynyddol hwn neu am TV Licensing yn gyffredinol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Gall aelodau'r cyhoedd gysylltu â ni drwy'r wefan (www.tvlicensing.co.uk) drwy ffonio **0300 790 6131** neu yn ysgrifenedig i TV Licensing, Darlington DL98 1TL.

Cewch ein dilyn ni ar Twitter **@TVLicensing** neu ddod o hyd i ni ar YouTube yn www.youtube.com/tvlicensing

Cewch ddarllen ein datganiadau newyddion diweddaraf a'n diweddariadau i randdeiliaid drwy ein dilyn ni ar Twitter ar **@TVLicensingNews**

Gall y rhai sy'n cysylltu â TV Licensing ar ran sefydliad neu'n broffesiynol ffonio ein Swyddfa Ymgyrchoedd ar **020 8752 6537** neu anfon e-bost i campaignoffice@tvlicensing.co.uk

Cofiwch nad yw'r Swyddfa Ymgyrchoedd yn gallu delio ag ymholiadau gan gwsmeriaid unigol.

Rhif ein cyfleuster ffôn testun ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw yw **0300 790 6050**

Mae copiau o'r adroddiad hwn ar gael mewn Braïlle ar gais drwy ffonio **0300 790 6131**